Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 14ddeg Mawrth, 2016 am 7.00 o'r gloch.

Presennol: Gadeirydd Robert Jones, Is Gadeirydd Wendy Whitby, H.E. Thompson, Gareth Evans, Eleri Puw, Cynghorwr Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.

Ymddiheuriad: Dylan Davies,

Datgan Diddordeb: Neb

Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd

Derbyniwyd cofnodion Chwefror a'u llofnodi gan y Cadeirydd

1.Cae Chwarae: Cyng Thompson yn adrodd bod y matiau yn eu lle a'r siglen yn edrych yn iawn. – Diolch Emrys. Pasiwyd i dalu Barry Shellis am gwaith y sleid.

Mynwent : Mae'n amser archwilio y ddwy fynwent er mwyn rhoi adroddiad fewn i'r Cyfarfod Blynyddol. Nodwyd bod y "Lynch Gate" eisiau sylw

Llwybrau: Trafodwyd Gammallt – Rhiwlas a Meriafel – manau perygl ar ol y glaw.

Adroddiad Cyng. Gwynedd: Adroddod Beth. Lawton y byddai toriadau i toriri gwair, manau Chwarae o dan Cyngor Gwynedd, Archifdy yn agor dau ddiwrnod yn lle tri, 50 o doiledau cyhoeddus yn cau, manau gwybodaeth , llwybrau tua 20%, glanhau pentrefi pob 3 mis, prisiau cinio cynrhad yn codi, clybiau ieuengtid ? , toriadau i'r adran briffyrdd £850,000.00. Diolch Cyng Lawton.

Ciosg: Adroddodd y Clerc bod peiriannwyr i lawr o Derby am bythefnos, yn helpu gyda'r ôl gwaith BT. Tynycornel wedi cael sylw.

Zurich Municipal: Pasiwyd yw dalu erbyn 28ain Ebrill

Archwiliwr Mewnol: Pasiwyd I dalu I John Roberts am 2015

Clerc: Pasiwyd i dalu tâl bynyddol £1011.00 a chostau trafeilio, £64.80, costau mân £164.92, cyfanswm £1240.72

Penblwydd ein Brenines yn 90deg oed. Trafodwyd a phasiwyd i wneud ymholiadau a oedd diddordeb dathlu.

Cyfethol Cynghorwyr: Trafodwyd pedwar enw a ddaeth i law. Pasiwyd I'r Cynghorydd Gareth Evans ymweld a Clare Crowley a Cyng. Emrys Evans ymweld ac Elwyn Evans, a'u gwahodd I'r cyfarfod nesaf.

Heddlu Gogledd Cymru; Darllenwyd llythyr yn rhoi gwybodaeth pwy y gallem gysylltu er mwyn gwyboaeth. Pasiwyd I wahodd Meirion L Jones, i rhoi manylion a ffigyrau, hefyd beth oedd yn digwydd yn y lloches bws.

Ombwdsman: gwybodaeth ar www.ombudsman-wales.org.uk

Parthed Staer Dywyll a cae ger Eglwys – Iwan Richards o'r Adran Priffydd yn gaddo cadw llygad.

Materion yn codi pryder: Arwydd Y Ganolfan yn rhydd, hefyd pryder o or yrru o'r pentref am Fferm Penygarreg. Mynediad Rhiwogof – pryder bod canghennau yn rwbio y llinnell ffôn.

Biniau Halen: Derbyniwyd llythyr yn trafod costau i'r Cynghorau Cymuned am eu llenwi, gyda diolch am ein sylwadau ond dim ateb. Pasiwyd danfon llythyr i holi a allem brynnu yr halen gan Gwynedd a llenwi y biniau ein hunan

Taliadau:	B A Shellis		£170.40	cae siec 858
	Zurch Municipal	309.91	ysiwriant	859
	J Roberts	55.00	archwiliad	860
	Eileen Jones	1,240.72	cyflog ayb	861

YMDDIRIEDOLAETH MARI JONES:

Dim wedi medru ail agor cyfrif Mari Jones, ffurflenni priodol i law.

Cyfarfod Nesaf 11fed Ebrill am 7 o'r gloch